# Disgrifiad Swydd Gwasanaethau Proffesiynol

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Pennaeth Brand, Marchnata a Chyfathrebu |
| Uned/Ysgol: | Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio Myfyrwyr (MCRM) |
| Gradd: | 9A/B |
| HERA: | MCSR18 |

**Prif bwrpas y rôl**

Mae Pennaeth Brand, Marchnata a Chyfathrebu yn swydd hollbwysig a fydd yn galluogi cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Strategol y Brifysgol, Strategaeth 2030.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am lunio brand Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac am ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata i hybu ymwybyddiaeth o'n brand a chyrraedd ein targedau o ran nifer y myfyrwyr newydd, gan weithio gyda'r Prif Swyddog Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio Myfyrwyr.

Bydd deiliad y swydd yn arwain y brand a'r cynnwys, y dylunio, cyfathrebu marchnata CRM, cyfathrebu mewnol (staff a myfyrwyr presennol) ac allanol, hysbysebu ac ymgyrchoedd, marchnata Ysgolion academaidd a swyddogaethau gwefan. Yn ogystal, bydd Pennaeth Brand a Marchnata yn goruchwylio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Brifysgol, gan wneud y mwyaf o'n hymgysylltiad digidol i gynyddu ein hamlygrwydd a'n dylanwad.

Bydd deiliad y swydd yn cefnogi'r Prif Swyddog MCRM i ddatblygu a gweithredu strategaeth gyfathrebu ar gyfer y Brifysgol ac yn gyfrifol am sicrhau bod timau brand, marchnata a chyfathrebu yn cydweithio i gyfleu stori Met Caerdydd.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn gweithio'n agos gyda'r tîm Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad wrth gasglu a dadansoddi data ystadegol i lywio strategaethau marchnata, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chystadleuwyr, a phroffilio darpar fyfyrwyr.

Mae'r rôl yn gofyn am ddealltwriaeth eithriadol o heriau a chyfleoedd marchnata ledled y brifysgol, y gallu i reoli adnoddau a chyflenwyr creadigol, a'r gallu i feithrin perthnasoedd cydweithredol â rhanddeiliaid uwch ar draws y Brifysgol i gyflawni darpariaeth gwasanaeth rhagorol.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

1. Gyda'r Prif Swyddog Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio Myfyrwyr, llywio'r gwaith o gynllunio, datblygu a gweithredu brand a strategaeth farchnata unedig sy'n cefnogi targedau recriwtio myfyrwyr yn effeithiol.
2. Cefnogi'r Prif Swyddog MCRM a'r Rheolwr Cyfathrebu i ddatblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer y brifysgol, gan gynnwys cyfathrebu mewnol ac allanol (ac eithrio cyfathrebu trawsnewid, a fydd yn cael ei gyflwyno gan y Rheolwr Cyfathrebu a'r Prif Swyddog MCRM)
3. Sicrhau bod cynnwys brand, marchnata a chyfathrebu'r Brifysgol o safon eithriadol o uchel, yn glynu wrth ganllawiau'r brand ac yn crynhoi gweledigaeth a gwerthoedd y Brifysgol.
4. Arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno cynnwys o ansawdd uchel yn effeithiol i gefnogi amcanion strategol y Brifysgol, yn enwedig o ran recriwtio myfyrwyr.
5. Goruchwylio datblygiad ymgyrchoedd, gan gynnwys rheoli partneriaid ac asiantaethau allanol, sy'n cwmpasu'r cylchoedd recriwtio israddedig ac ôl-raddedig i gynhyrchu ymholiadau, archebion ar gyfer digwyddiadau recriwtio myfyrwyr a cheisiadau i'r Brifysgol ar draws y portffolio gan dargedu marchnadoedd y DU a rhyngwladol.
6. Gweithio gyda thîm uwch reoli MCRM, goruchwylio taith y cwsmer o'r dechrau i'r diwedd o'r cyfnod ymholiadau i wneud gais i gofrestru – nodi mannau cyswllt hanfodol a chreu amserlenni marchnata/CRM/cyfathrebu sy'n darparu negeseuon clir a chymhellol ac yn cefnogi trosi ceisiadau.
7. Rheoli a chefnogi'r Rheolwr Marchnata i wreiddio tîm marchnata'r Ysgolion - eu rolau, eu ffyrdd o weithio, a'u prosesau - er mwyn sefydlu dull cydweithredol cwbl effeithiol gydag Ysgolion Academaidd a pherthnasoedd â chydweithwyr mewnol.
8. Goruchwylio datblygiad y Strategaeth Rheoli Cynnwys i gefnogi llywodraethu'r wefan, cyfathrebu a sianeli cyfryngau cymdeithasol.
9. Cynhyrchu adroddiadau a mewnwelediadau rheolaidd i werthuso effeithiolrwydd marchnata'r Brifysgol, gan ddefnyddio dulliau ymchwil a monitro priodol, gan gynnwys rheoli cyllideb ac arddangos ROI.
10. Adolygu a sicrhau bod systemau a phrosesau sy'n sail i weithgarwch marchnata gwefannau a CRM yn addas at y diben ac yn cydymffurfio â diogelu data perthnasol, GDPR a chyfraith defnyddwyr.
11. Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus a'r Rheolwr Cyfathrebu i integreiddio cyfathrebu allanol a mewnol â chynlluniau a hymgyrchoedd marchnata i gefnogi cyflawni targedau recriwtio myfyrwyr ac incwm.
12. Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Cyfathrebu i ddyfeisio a gweithredu dull aml-haen o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys corfforaethol, myfyrwyr a darpar fyfyrwyr.

**<u>Manyleb person</u>**

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol**

- Gradd mewn maes perthnasol (marchnata/cyfathrebu) neu gymhwyster neu brofiad cyfatebol.

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Gwybodaeth helaeth am dechnegau marchnata digidol a thraddodiadol o fewn amgylchedd AU.
2. Gwybodaeth ymarferol dda am reoli brand a'r cymysgedd marchnata.
3. Dealltwriaeth gyfoes o'r datblygiadau diweddaraf ym maes marchnata, cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol, rheoleiddiol a chytundebol sy'n berthnasol i farchnata prifysgolion gan gynnwys cydymffurfio â'r CMA a GDPR.
4. Arweinydd effeithiol i hyrwyddo strategaethau brand, marchnata a chyfathrebu'r brifysgol ac arwain y gwahanol wasanaethau gyda'r tîm Brand, Marchnata a Chyfathrebu.
5. Profiad o arwain a chyfarwyddo timau i gyflawni prosiectau a mentrau’n brydlon ac o fewn y gyllideb, gan gynnwys profiad helaeth o reoli cyllidebau gwerth miliynau o bunnoedd ar draws gwahanol dimau.
6. Dull gwaith proffesiynol iawn, gan addasu dulliau ac arddulliau cyfathrebu yn ôl yr angen yn ogystal â'r gallu i ddylanwadu a negodi i sicrhau newid.
7. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol sy'n dangos y gallu i ddrafftio dogfennau a chyfathrebu'n gadarnhaol ag unigolion ar sawl lefel, yn fewnol ac yn allanol.
8. Hanes blaenorol o lwyddiant wrth weithredu strategaethau marchnata a chyfathrebu sy'n cyflawni canlyniadau busnes pendant.
9. Profiad blaenorol mewn prynu cyfryngau a rheoli asiantaeth farchnata
10. Profiad o arwain timau cyfathrebu mewnol ac allanol llwyddiannus, gan gynnwys y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus.
11. Profiad o reoli staff yn llwyddiannus, gyda sgiliau arweinyddiaeth datblygedig ac angerdd clir dros ddatblygu staff brwdfrydig a thimau cryf.
12. Profiad o oruchwylio adnoddau creadigol a chyfryngau naill ai'n fewnol neu'n gweithio gyda chyflenwyr marchnata arbenigol gan gynnwys ymchwil, arbenigwyr creadigol fel cynhyrchu fideo a chynllunio a phrynu cyfryngau.

**Dymunol**

1. Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg (ysgrifenedig ac ar lafar).
2. Profiad o reoli ymatebion y cyfryngau.
3. Cymhwyster ôl-raddedig mewn maes perthnasol.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau iaith Gymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br><br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br><br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredina syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br><br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br><br>Yn gallu mynegi fy hun yn Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br><br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br><br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

**Gwybodaeth ategol**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.